# Cyngor Cymuned Llandderfel.

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Tachwedd 4ydd 2025 yn Neuadd Mynach. Yn bresennol oedd Alwyn Jones (cadeirydd), Eilir Rowlands, Rita Jones, Dewi Pritchard, Bethan Thomas, Maldwyn Jones, Eifion Davies, Gwenda Evans a'r clerc.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Gwenda Morris, Iolo Evans, Gwynedd Jones a'r Cyng. Elwyn Edwards.

**i) Darllenwyd cofnodion cyfarfodydd mis Hydref a chafwyd yn gywir.**

**ii) Datgan Buddiant.**
Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

**iii) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.**

a) Ymateb i'r cwynion o'r cyfarfod diwethaf.
i) Roedd y swyddog heddlu lleol wedi cael gair gyda pherchennog y ceffylau a oedd yn crwydro ffyrdd gwledig yn Llandderfel.
ii) Roedd gweithlu Tîm Tacluso Cyngor Gwynedd am glirio'r chwyn o gwmpas y gwlïau ym mhentref Frongoch.

b) Cronfa 'Gwynedd Ni' i Gynghorau Tref/Cymuned – Cais mynwent St. Mark, Frongoch.
Adroddodd y clerc fod y llwybr troed ym mynwent Frongoch wedi cael ei gwblhau ac awdurdodwyd y clerc i dalu'r anfoneb pan fyddai'n ei dderbyn. Roedd y clerc yn gobeithio bydd y contractwr coed yn cychwyn y gwaith yn fuan a chafwyd trafodaeth beth i wneud gyda'r coed wedi iddynt gael eu torri.

c) Mynwentydd.
Trefnwyd dyddiad ar gyfer ail archwilio cerrig beddi'r mynwentydd.

ch) Lloches bws newydd i Lanfor.
Adroddodd y clerc fod yr Asiantaeth Cefnffyrdd wedi cysylltu'n nôl gyda manylion perchnogaeth y tir a gobeithio y bydd yn bosib symud y cynllun yn ei flaen yn fuan. Derbyniwyd pris hefyd ar gyfer gwneud y gwaith trwsio'r hen loches. Cytunwyd i dderbyn y pris a gofyn i Eilir Evans gwblhau'r gwaith.

d) Ciosg ffôn pentref Llandderfel.
Roedd y clerc wedi cyfarfod a phwyllgor y neuadd i drafod y gwaith o drawsnewid yr hen giosg yn llyfrgell gymunedol.

**iv) Gohebiaeth.**

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Cyngor Gwynedd.
i) Rhaglen Waith yr Adran Priffyrdd ar gyfer mis Tachwedd.
ii) Arolwg Strategaeth Gwastraff y Cyngor.

b) Amrywiol.
i) Cyngor Tref Y Bala – llythyr yn ein cynghori o'r bwriad i ail leoli gwaith Celf Canolfan Cywain. Nid oedd gan y Cyngor Cymuned unrhyw wrthwynebiad i hyn.
ii) Cwmpas – grant Prosiect Perthyn.
iii) Ymgynghoriad ar y newidiadau i reolau etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru.

v) Ceisiadau Cynllunio
a) Derbyniwyd y cais cynllunio canlynol:-
i) C25/0775/04/CC - Tocio a dymchwel coed gyda Gorchymyn Gwarchod Coed. Cysgod y Coed, Llanfor.
Nid oedd y Cyngor yn ymwybodol o unrhyw wrthwynebiad lleol i'r cais.



Arwyddwyd: …………………………………………. Dyddiad: …………………………………..

ii) PEDW - DNS/3276735 - Fferm Wynt Gaerwen - hysbysiad o'r weithdrefn
Eglurodd y clerc fod yr Arolygydd wedi adolygu'r cais, yr Adroddiad ar yr Effaith Leol a'r holl sylwadau a gyflwynwyd ac wedi penderfynu bod angen sesiynau gwrandawiad i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd.

**vi) Materion Ariannol.**

a) Taliadau.

Cytunwyd i dalu –
i) Sion Jones (torri glaswellt y mynwentydd).

b) Ceisiadau Ariannol.

Derbyniwyd cais gan Ambiwlans Awyr Cymru a chytunwyd i'w drafod gyda gweddill o'r ceisiadau ym mis Mawrth.

**vii) Materion lleol.**

a) Camfa Melin Cletwr.

Yn dilyn cais i drwsio'r gamfa ar frys gan fod taith gerdded wedi cael ei drefnu, roedd gweithlu Cyngor Gwynedd wedi ei gwneud yn saff.

b) Gofynnwyd i'r clerc basio'r cwynion canlynol ymlaen i'r adrannau perthnasol:-

i) Canghennau'r coed o gwmpas y goleuadau stryd yng Nghefnddwysarn angen eu torri.
ii) Roedd fan wedi cael ei adael yn ganol pentref Llanfor ers rhai wythnosau. Gofynnwyd i'r clerc ofyn i'r perchennog i'w symud.
iii) Trafodwyd rhwystredigaeth y sefyllfa parcio rhwng yr eglwys a chyffordd Stryd Trafalgar yn Llandderfel a'r anhawsterau oedd y bws T3 yn ei gael wrth ddod i bigo teithwyr i fyny o'r pentref. Cytunwyd i ddosbarthu llythyr i'r tai cyfagos yn gofyn am eu cydweithrediad i beidio parcio ar y darn yma o'r ffordd.

# Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth, Rhagfyr 2il am 7.30y.h. yn Neuadd Mynach.



Arwyddwyd: …………………………………………. Dyddiad: …………………………………..